# PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

**Dyddiad:** 11 Mai 2000

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1

**Yn bresennol Aelodau**

Janet Davies (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru

Lorraine Barrett De Caerdydd a Phenarth

Peter Black Gorllewin De Cymru

Alun Cairns Gorllewin De Cymru

Jane Davidson Pontypridd

Geraint Davies Rhondda

Brian Gibbons Aberafon

Alison Halford Delyn

Dafydd Wigley Caernarfon

**Swyddogion**

Syr John Bourn Archwiliwr Cyffredinol Cymru

Frank Grogan Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Sharon Davies Swyddog Cydymffurfiad Dros Dro’r

Cynulliad Cenedlaethol

Andrew George Clerc

Julie Bragg Dirprwy Glerc

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**

**Papurau:** AC-04-00(p.1) ac AC-04-00(p.2)

1. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar *Awdurdod Datblygu Cymru: Rheoli'r broses o greu Awdurdod estynedig a chwilio am arbedion yn y dyfodol* a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 4 Mai 2000 ac *Awdurdod Datblygu Cymru: Cymorth i Fusnesau Cynhenid yng Nghymru* a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 9 Mai 2000.

   **Tystion**

   Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

   Steve Phillips Pennaeth, Is-adran Polisïau Economaidd, Cynulliad

   Cenedlaethol Cymru

   Brian Willott, CB Prif Weithredwr, Awdurdod Datblygu Cymru

   Richard Beaumont Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol a Chyllid,

   Awdurdod Datblygu Cymru

   Alan Morgan Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Busnes a Chynnyrch,

   Awdurdod Datblygu Cymru

2. Atodir trawsysgrif air am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur: AC-02-00(min)**

1. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.
2. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei bod yn ddiweddar wedi cwrdd â David Davis, Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tþ’r Cyffredin, ac Andrew Welsh, Cynullydd Comisiwn Archwilio Senedd yr Alban, i drafod meysydd o ddiddordeb cyffredin. Cytunwyd y byddai’r tri phwyllgor yn cydweithredu pryd bynnag y byddai archwiliad gan un pwyllgor yn debygol o fod o ddiddordeb i’r rhai eraill. Hefyd roedd posibilrwydd o ddatblygu ymagwedd gyffredin tuag at y ffordd y gallai’r pwyllgorau edrych ar brojectau a gefnogir gan y Fenter Ariannu Preifat.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar *Addysg Bellach yng Nghymru***

1. Penderfynodd y Pwyllgor eithrio’r cyhoedd o’r rhan hon o’r cyfarfod yn unol â Gorchymyn Sefydlog 8.21(vi):

   *Gall Pwyllgor benderfynu eithrio’r cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o cyfarfod lle… mae’r pwyllgor yn trafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y bwriedir ei gyhoeddi.*

   Trafodwyd yr adroddiad drafft yn llawn ac ystyrir y materion a godwyd gan aelodau yn yr adroddiad terfynol.

3.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.